Gair gan y Maer

Owen Roberts
Bu i'r Maer a'r aelodau o'r Cyngor sefyll mewn munud o dawelwch i gofio am y cyn Faer, Mr Owen Roberts (Now Leiffbot) a fu farw yn ddiweddar.
Roedd yn Faer y dref rhwng 1984 a 1986.
Roedd yn Gocsyn Beiriannydd i Bad Achub Pwllheli, am gyfnod o 30 mlynedd.
Gwasanaethodd y cyngor a'r dref dros flynyddoedd maith. Roedd ei ddiddordeb yn hanes morwrol y dref yn heintus ac addysgiadol bob amser. Coffa da amdano.

Parêd Dewi Sant
Bu i'r Maer, Dirprwy Faer a Cheidwad y Prysgyll orymdeithio yn y pared bore Sadwrn 2ail o Fawrth.
Cyflwynodd y Maer y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth addurdno ffenestri siopa'r dref i Gwmni Teithio Pwllheli.
Diolchodd i bawb am gystadlu ac i'r pwyllgor bychan gweithgar am drefnu'r diwrnod.

Baneri Stryd
Diolchodd y Maer i'r Cynghorydd Alan Williams, y Clerc Mr Eric Price, Cyng. Henry Rees Williams, Cyng. Michael Sol Owen a Mr Sion Williams
am osod y baneri. .

Eric Wyn Roberts
7fed o Fawrth, 2019